international council on archives
conseil international des archives

DATGANIAD CYFFREDINOL AR ARCHIFAU

Mae archifau yn cofnodi penderfyniadau, gweithredoedd ac atgofion. Maent yn dreftadaeth unigryw ac anamnewidiadwy sy'n cael eu pasio o un genhedlaeth i'r llall. Rheolir archifau o'u dechreuad i ddiogelu eu gwerth a'u hystyr. Maent yn ffynonellau gwybodaeth awdurdodol sy'n sail i weithredoedd gweinyddol atebol a thryloyw. Maent yn chwarae rôl hanfodol yn natblygiad cymdeithas drwy ddiogelu a chyfrannu at atgof unigol a chymunedol. Mae mynediad i archifau yn cyfoethogi ein gwybodaeth o gymdeithas ddynol, yn hyrwyddo democratiaeth, amddiffyn hawliau dinasyddion ac yn gwella ansawdd bywyd.

I'r perwyl hwnnw, rydym yn cydnabod

- priodoledd unigryw archifau fel tystiolaeth ddilys o weithgareddau gweinyddol, diwylliannol a deallus ac fel adlewyrchiad o esblygiad cymdeithasau;
- angenrheidrwydd hanfodol archifau i gefnogi effeithlonrwydd busnes, atebolrwydd a thryloywder, i ddiogelu hawliau dinasyddion, i sefydlu cof unigol a chyfunol, i ddeall y gorffennol, ac i ddogfennu'r presennol er mwyn arwain gweithredoedd yn y dyfodol;
- amrywiaeth archifau o ran cofnodi pob agwedd ar weithgareddau dynol
- lluosogrwydd y fformatau yr archifau gan gynnwys papur, electronig, clyweledol a mathau eraill;
- rôl archifwyr fel gweithwyr proffesiynol hyfforddedig gydag addysg ddechreuol a pharhaol, yn gwasanaethu eu cymdeithasau drwy gefnogi creu cofnodion a thrwy ddethol, cynnal a darparu'r cofnodion yma i'w defnyddio;
- cyfrifoldeb cyfunol pawb i reoli archifau – dinasyddion, gweinyddwyr cyhoeddus a phenderfynwyr, perchnogion a deiliaid archifau cyhoeddus a phreifat, ac archifyddion ac arbenigwyr gwybodaeth eraill

Rydym felly'n bwriadu cydweithio er mwyn

- i bolisïau a chyfreithiau archifol cenedlaethol gael eu mabwysiadu a'u gweithredu;
- bod rheolaeth archifau'n cael ei werthfawrogi a'i gyflawni'n gymwys gan bob corff, preifat neu gyhoeddus, sy'n creu a defnyddio archifau yng nghwrs eu busnes;
- sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i gefnogi rheolaeth briodol archifau, gan gynnwys cyflogaeth gweithwyr proffesiynol hyfforddedig;
- sicrhau bod archifau'n cael eu rheoli a'u cadw mewn ffyrdd sy'n sicrhau eu dilysrwydd, dibynadwyedd, cyfanrwydd a defnyddioldeb;
- sicrhau bod archifau'n gyraeddadwy i bawb, tra'n parchu cyfreithiau perthnasol a hawliau unigolion, crewyr, perchnogion a defnyddwyr;
- sicrhau bod archifau'n cael eu defnyddio i gyfrannu i hyrwyddo dinasyddiaeth gyfrifol.